**Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** **4 RHAGFYR 2024**

# AGENDA

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan aelodau.

**2. DATGAN BUDDIANNAU**

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**4. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR: 'NATIONAL CAMPAIGN FOR EARTHDAY.ORG'**

Derbyn cais (copi ynghlwm) gan Anna Grotelueschen o'r mudiad uchod yn gofyn am ddod i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod yr ymdrechion i drefnu dathliadau Diwrnod y Ddaear 2025.

**5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADOLYGU DOSBARTHIADAU ETHOLIADAU, MANNAU PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

Derbyn a phenderfynu ar y dogfennau ymgynghori uchod (copi ynghlwm).

**[Dyddiad cau i dderbyn ymatebion - 15 Rhagfyr 2024]**

**6. EITEM GAN AELOD**

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch pa awdurdod sy'n gyfrifol am orfodaeth sgwteri/beiciau trydan sy'n cael eu defnyddio'n amhriodol ar strydoedd ac ardaloedd i gerddwyr yn y Rhyl.

**7. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**8. POLISI RHYDDFREINWYR ANRHYDEDDUS**

Derbyn adroddiad cyfrinachol ar lafar gan Glerc y Dref.

## 9. CYMORTH I DDIGWYDDIADAU YN 2025

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024, derbyn a phenderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi ynghlwm).

## 10. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2025/26 / Y CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ystyried, diwygio a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (copi ynghlwm) ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2025/26 i gyflwyno'r argymhellion sy'n deillio o hynny i gyfarfod y Cyngor, ac argymell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.

**[Atgoffir yr aelodau y gallant, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am ragor o wybodaeth fanwl am y ffigurau neu'r materion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder, gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol neu Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.]**

## 11. DIWEDD Y CYFARFOD

Y Cadeirydd i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.